


TYR Newyddion Arbennig: Y Pandemig COVID-19

Croeso i'r rhifyn arbennig hwn o lythyr newyddion Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, yr ydym wedi'i lunio ar eich cyfer er mwyn rhoi sylw i'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael yn ystod y cyfnod anodd hwn.



Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn diweddarau ei wefan yn rheolaidd â newyddion ac erthyglau blog am effaith y pandemig ar y rhanbarth. Mae'r holl ddarnau diweddaraf i'w gweld [yma](#).

Canllawiau WEFO

Mae WEFO yn parhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo gweithrediadau'r cronfeydd strwythurol drwy gydol effaith y pandemig COVID-19. Mae wedi diweddarau ei [arweiniad](#) ar sail Cwestiynau Cyffredin â gwybodaeth bellach am weithgareddau a chostau cymwys ar gyfer rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae arweiniad newydd ar gael ynghylch y gofyniad cyd-fuddsoddi ar gyfer Blaenoriaeth 2 Cronfa Gymdeithasol Ewrop, prosiectau Sgiliau ar gyfer Twf, gan fod y gofyniad cenedlaethol i fusnesau ariannu'n rhannol unrhyw ymyriadau o ran sgiliau wedi'i lacio. Dan yr hyblygrwydd hwn, gall gweithrediadau ddewis atal eu gofynion cyd-fuddsoddi neu leihau'r lefelau cyd-fuddsoddi y maent yn gofyn amdanynt gan gyflogwyr. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn para am 18 mis, a chaiff ei ôl-ddyddio ar gyfer hyfforddiant a ddarparwyd o 1 Mawrth 2020 ymlaen ac a fydd yn parhau tan 31 Awst 2021. Bydd angen i arweinwyr gweithredol ystyried y goblygiadau o ran cyllid a chymorth gwladwriaethol, a thrafod y goblygiadau hynny â'u Swyddog Datblygu Prosiect.

Mae pecyn arall o fesurau â hyblygrwydd ychwanegol wedi'i gymeradwyo erbyn hyn gan yr UE, ond bydd angen o hyd i brosiectau sy'n cael cymorth gan yr UE sicrhau bod ganddynt amcanion clir, allbynnau y gellir eu mesur a llwybrau archwilio clir sy'n dangos sut y mae'r gwariant yn hybu'r gwaith o gyflawni'r deilliannau hynny. Mae gwaith ar y gweill ar brosiect i helpu i dalu'r costau y mae Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru wedi mynd iddynt er mwyn cyflogi staff meddygol ychwanegol, er enghraifft staff meddygol sydd wedi ymddeol yn ddiweddar a myfyrwyr meddygaeth sydd yn eu blwyddyn olaf, i gynorthwyo i fynd i'r afael â Covid-19. Bydd rhaglenni'n cael eu haddasu'n ôl-weithredol er mwyn ymdrin â hynny.

Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol

Mae'r cyfnod ymgynghori ynghylch Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru wedi'i ymestyn a bydd yn dod i ben yn awr ar 6 Mehefin 2020. Bydd WEFO yn cynnal pedair gweminar ymgynghori rhanbarthol drwy Zoom, a bydd digwyddiad y de-ddwyrain yn cael ei gynnal ar 14 Mai. Bydd y gweminarau'n rhoi cyfle i bob rhanddeiliad ofyn cwestiynau ac ymgysylltu cyn iddynt gyflwyno eu hymateb i'r ymgynghoriad. Byddant hefyd yn gyfle i drafod buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol mewn cyd-destun ehangach a fydd yn cynnwys ymateb i Covid-19 / adfer yr economi.

Dyma'r ddolen gyswllt ar y we er mwyn cael gafael ar y ddogfen a'r atodiadau: <https://llyw.cymru/fframwaith-buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru>

Cymorth i'r trydydd sector

Mae gan [Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) ddwy gronfa newydd i gynorthwyo'r sector gwirfoddol drwy'r argyfwng hwn, sef [Cronfa gwydnwch trydydd sector Cymru](#) a [Chronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol](#).

At hynny, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi lansio ei alwad ddiweddaraf ar gyfer y cynllun grant [Cynhwysiant Gweithredol](#), a fydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i fudiadau'r trydydd sector ymateb i'r pandemig Covid-19. Mae'r broses o wneud cais am grant wedi'i symleiddio a'i byrhau ar gyfer y mudiadau hynny sydd ar y Rhestr Buddiolwyr Cymeradwy.

Mae gan [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#) hefyd ddolenni cyswllt defnyddiol â ffynonellau cymorth.

Hyfforddiant

Cofiwch fod yr holl brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n darparu cymorth gyda chyflogadwydd i'w gweld ar ein gwefan: <http://www.sewales-ret.co.uk/cy/projects/>. Er nad ydynt yn gallu cynnig cymorth wyneb yn wyneb, mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau yn parhau i gyflawni drwy gynnig cymorth a chyfleoedd i ddysgu o bell.

Bu peth dryswch ymhlith cwmnïau ynghylch a yw eu gweithwyr sydd ar ffyrlo yn gymwys i gymryd rhan mewn hyfforddiant. Mae'r wybodaeth sy'n cadarnhau bod gweithwyr sydd ar ffyrlo yn gymwys i gymryd rhan mewn hyfforddiant i'w gweld [yma](#).

Dyma rai dolenni defnyddiol:

- Gyrfa Cymru – [adnodd](#) defnyddiol ar gyfer chwilio am gyrsiau
- Y Brifysgol Agored: OpenLearn – [cyrsiau byr sy'n rhad ac am ddim](#)
- Mae Cymru'n Gweithio yn dal i weithio'n ddigidol yn ystod y pandemig. Ewch i'w wefan i gael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael: <https://cymrungweithio.llyw.cymru/>
- Pecyn cymorth sgiliau Llywodraeth y DU: <https://theskillstoolkit.campaign.gov.uk/>

Cymorth a chyngor busnes

Banc Datblygu Cymru

Lansiodd Banc Datblygu Cymru [Gynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru](#) ym mis Mawrth, a oedd yn werth £100 miliwn, yn rhan o Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru a oedd yn werth £500 miliwn. Y nod oedd cynorthwyo busnesau a oedd yn profi anawsterau o ran llif arian o ganlyniad i'r pandemig. Roedd y cynllun yn cynnig benthyciadau o hyd at £250,000 gyda llog sefydlog o 2% i fusnesau sydd wedi bod yn masnachu ers dros ddwy flynedd, heb fod yn rhaid iddynt wneud unrhyw ad-daliadau am y 12 mis cyntaf na thalu unrhyw ffioedd trefnu neu fonitro. Cafodd y benthyciadau cyntaf eu cymeradwyo cyn pen tridiau i ddyddiad lansio'r gronfa ac roedd holl arian y cynllun wedi'i ddyrannu ar ôl wythnos yn unig. At hynny, mae Banc Datblygu Cymru yn cynnig seibiant i'w gwsmeriaid cyfredol na wnaethant fanteisio ar y cynllun, sy'n golygu na fydd yn rhaid iddynt ad-dalu arian cyfalaf a ffioedd monitro am 3 mis. Bydd y seibiant hwnnw'n parhau tan fis Gorffennaf.

Busnes Cymru

Mae [platfform digidol Covid-19 Busnes Cymru](#) yn darparu'r holl wybodaeth ddiweddaraf i fusnesau yng Nghymru ynghyd â diweddariadau bob dydd am gymorth ariannol, cymorth fel arall a chanllawiau i gyflogwyr.

Mae Llinell Gymorth Busnes Cymru (03000 6 03000) ar agor ar gyfer ymholiadau gan fusnesau dros y ffôn, drwy ebost a thrwy sgysiau byw.

Byddem yn argymhell bod busnesau yng Nghymru yn tanysgrifio i [lythyr newyddion Busnes Cymru](#) er mwyn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael a chael y cyhoeddiadau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

Cymorth busnes

Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor a chymorth diduedd, annibynnol i bobl sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn datblygu busnes yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn, mae cynghorwyr arbenigol Busnes Cymru wrth law i roi cyngor a chymorth i unrhyw entrepreneur neu unrhyw fusnes bach neu ganolig ei faint yng Nghymru. Mae pob un o brif wasanaethau Busnes Cymru a phob un o'r Canolfannau Menter yn gweithredu mewn amgylchedd rhithwir er mwyn darparu cymorth un i un a gweithdai ar-lein.

Gall perchnogion busnes drafod unrhyw heriau â chynghorwyr neu ymuno ag un o'n gweminarau newydd ar-lein. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys y canlynol:

- ansicrwydd busnes, incwm a rheoli llif arian
- yr effaith y mae'r ffaith bod eich busnes yn segur yn ei chael ar incwm, ar staff ac arnoch chi fel entrepreneur
- addasu eich model busnes
- ymdrin â chyflenwyr a chontractwyr
- adnoddau dynol a staffio
- arallgyfeirio'n ddigidol
- cyflawni busnes mewn byd rhithwir – o daliadau ar-lein i seiberddiogelwch a marchnata
- gofalu amdanoch eich hun, sy'n cynnwys cymorth i sicrhau eich lles chi a lles eich tîm arwain eich tîm drwy argyfwng.

Hyd yma mae Busnes Cymru wedi darparu 139 o weminarau ar ystod o bynciau sy'n amrywio o sesiynau rhagarweiniol byr, 30 munud o hyd, i ymyriadau 2 awr o hyd er mwyn gallu dysgu a sgwrsio'n fwy manwl.

Cliciwch [yma](#) i weld y rhaglen o weminarau am Covid-19 a gynigir ym mis Mai.

Cymorth Busnes: Cyfleoedd o ran Hyfforddiant

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi lansio nifer o grantiau partneriaeth arbenigol a chyllid ar gyfer hyfforddiant ar-lein i staff (gan gynnwys staff sydd ar ffyrlo) er mwyn cynorthwyo'r broses ymadfer ar ôl Covid-19. I gael rhagor o fanylion, ewch i [Borth Sgiliau Busnes Cymru](#).

Mae **Cynhyrchu Cyfryngau Uwch** yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd i wella sgiliau ar gyfer busnesau a sefydliadau Cymreig ym maes cynhyrchu digidol a chynhyrchu cyfryngau. Mae'r prosiect yn cymryd ceisiadau ar gyfer y modiwlau canlynol ym mis Mehefin 2020:



**Cynhyrchu
Cyfryngau Uwch**
**Advanced Media
Production**

- Cyflwyniad i Gynhyrchu Cyfryngau (Cymraeg a Saesneg)
- Rhaglennu ar gyfer Cyfryngau Digidol (Cymraeg a Saesneg)
- Diwylliannau Digidol (Saesneg)
- Datblygu Gwefannau (Saesneg)
- Sgiliau Cynhyrchu Cyfryngau Uwch (Cymraeg a Saesneg).

Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu mewn fformat hyblyg sy'n galluogi myfyrwyr i weithio drwy ddysgu o bell gyda chymorth – drwy raglen ar-lein yn bennaf.

Mae'r cynllun wedi cael cefnogaeth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, felly caiff hyfforddiant lefel gradd Meistr ei gynnig am £165.00 y modiwl fesul gweithiwr, a hynny oherwydd y cymhorthdal hael a geir (mae modiwlau ar y lefel academaidd ac arbenigol hon fel rheol yn costio hyd at £1000).

Mae fideo a chyflwyniad byr sy'n rhoi rhagor o fanylion am y rhaglen hon i'w gweld yma: [Cynhyrchu Cyfryngau Uwch – Fideo Byr](#) a [Cynhyrchu Cyfryngau Uwch – Cyflwyniad](#).

